SESIWN GYMRAEG 3: BYWYD YN NIWRNOD ...

Ystod oedran: 11-16 oed

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd dysgwyr yn darllen disgrifiadau o "Bywyd yn niwrnod …" pedwar o bobl ifanc a gafodd eu cyfweld gan ymchwilwyr Young Lives, dau o Ethiopia a dau o India. Byddant yn trafod sut y gall rhyw a byw mewn ardal ddinesig neu wledig effeithio ar gyfleoedd a bywydau pobl ifanc. Yna bydd dysgwyr yn dadansoddi arddull testun Bywyd yn niwrnod Afework ac yn ysgrifennu eu testunau eu hunain ar gyfer un o'r wyth person ifanc dan sylw y cawsant eu cyflwyno iddynt yn sesiynau Cymraeg 1 a 2.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
Nodi nodweddion, iaith, pwrpas a chynulleidfa math penodol o destun a gallu defnyddio’r wybodaeth hon yn eu hysgrifennu eu hunain.
Defnyddio ffynonellau ysgrifenedig i sbarduno trafodaeth.
Cydnabod effeithiau posibl lleoliad daearyddol (byw mewn ardal ddinesig neu wledig) a rhyw ar fywydau pobl ifanc.</td><td>Deilliannau dysgu
Bydd dysgwyr yn dadansoddi testun ac yn nodi ei nodweddion, ei iaith, ei ddiben a'i chynulleidfa.
Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu "Bywyd yn niwrnod …" person ifanc arall o un o bedair gwlad y prosiect Young Lives: Ethiopia, India, Periw rwy
a Fiet-nam.
Bydd y dysgwyr yn nodi anghydraddoldebau ym mywydau pedwar o bobl ifanc o Ethiopia ac India ac yn trafod effeithiau posibl rhyw a lleoliad daearyddol.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
Beth sy’n debyg a beth sy’n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn?
Yn ein barn ni, beth yw’r rhesymau dros rai o'r gwahaniaethau hyn?
A ydym yn meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam yr ydych yn meddwl hyn?
Beth yw diben a chynulleidfa'r testun hwn? Pa nodweddion ac iaith y mae'n eu defnyddio?
Pa mor dda ydw i wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn fy ysgrifennu fy hun?</td><td>Adnoddau
Sioe sleidiau Cymraeg B (sleidiau 2–7)
Taflenni adnoddau:
Bywyd yn niwrnod: Afework a Tufa (Ethiopia); Harika a Ravi (India)
Taflenni gweithgareddau:
Bywyd yn niwrnod … Grid dadansoddi
Bywyd yn niwrnod … Templed cynllunio</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Noder:

- *Awgrymiadau yn unig yw'r gweithgareddau a'r adnoddau hyn i gefnogi eich dulliau addysgu yn hytrach na'u harwain.* Gall fod angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.
- Mae proffiliau'r bobl ifanc sy'n ymddangos yn yr adnoddau hyn yn seiliedig ar gyfweliadau trylwyr a gynhaliwyd â nhw yn 2007, pan oeddent yn 12 i 16 blwydd oed. Dewiswyd y grŵp oedran hwn fel bod y bobl ifanc tua'r un oed â'r dysgwyr yn y DU. *Er bod rhai newidiadau sylweddol wedi digwydd i gymunedau a bywydau'r bobl ifanc sydd dan sylw ers 2007 bydd rhai pobl ifanc yn y cymunedau hyn heddiw yn byw bywydau tebyg a bydd ganddynt straeon tebyg.*
- *Nodwch fod y sesiwn hon yn defnyddio model erthyglau rheolaidd 'A life in the day of' sy'n ymddangos yn y* Sunday Times*. Efallai yr hoffech gasglu rhai enghreifftiau i'w dangos i'r dysgwyr.*

Gweithgaredd 3.1 (20 mun)

Bylchau o fewn gwledydd

Noder: Efallai bod y dysgwyr wedi archwilio effeithiau rhyw, ethnigrwydd a byw mewn ardal ddinesig neu wledig mewn sesiynau eraill: gweler sesiynau 4 a 5 Daearyddiaeth a sesiynau 3 a 4 Mathemateg.

- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am un o'r bobl ifanc dan sylw y dysgon nhw amdano mewn sesiynau blaenorol ac yna trafod diwrnod posibl ym mywyd y person ifanc hwn, gan ddefnyddio'r dechneg 'Meddwl, Paru, Rhannu'.
  - ***Meddwl:*** Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio munud yn meddwl ar eu pennau eu hunain.
  - ***Paru:*** Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu syniadau gyda phartner.
  - ***Rhannu:*** Rhannwch syniadau'r dysgwyr fel grŵp cyfan.
- Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch gopïau i bob pâr o *Bywyd yn niwrnod …* ar gyfer un ai'r ddau berson ifanc yn Ethiopia (Afework a Tufa) neu'r ddau berson ifanc yn India (Harika a Ravi). Darperir ffotograffau o'r bobl ifanc hyn ar sleidiau 3 i 6.
- Eglurwch fod y testun ar bob dalen yn disgrifio bywyd a diwrnod arferol person ifanc penodol yn un o gymunedau'r prosiect Young Lives. Cafodd yr holl bobl ifanc hyn eu cyfweld gan ymchwilwyr Young Lives. Mae dau o'r bobl ifanc yn byw yn Ethiopia, un mewn ardal ddinesig ac un mewn ardal wledig. Mae dau o'r bobl ifanc yn byw yn India: bachgen yw un a merch yw'r llall.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun ar eu dwy ddalen ac yna cwblhau *Grid dadansoddi Bywyd yn niwrnod …* ar gyfer pob un o'u pobl ifanc.
- Gofynnwch i'r dysgwyr pam eu bod yn credu bod y testun yn cael ei alw'n "Bywyd yn niwrnod …" yn hytrach na'r teitl mwy cyfarwydd "Diwrnod ym mywyd …". Pwysleisiwch fod y math hwn o destun nid yn unig yn cynnwys gwybodaeth am ddiwrnod y person ifanc – mae hefyd yn rhoi manylion ehangach am y person ifanc, fel ei hoff a'i gas bethau, ei deulu, ei ffrindiau a'i freuddwydion ar gyfer y dyfodol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Nawr gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r testunau a'u gridiau dadansoddi i weld a allant bennu beth sy'n wahanol a beth sy'n debyg rhwng bywydau eu dau berson ifanc.
- Trafodwch y cwestiynau canlynol:
  - *Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r ddau berson ifanc hyn?*
  - *Yn eich barn chi, beth yw'r rhesymau posibl dros rai o'r gwahaniaethau hyn?*
  - *A ydych yn meddwl bod y gwahaniaethau'n deg? Pam yr ydych yn meddwl hyn?*
- Tynnwch sylw at y pwynt y gall rhyw a byw mewn ardal drefol neu wledig achosi anghydraddoldebau ym mywydau pobl ifanc a'r cyfleoedd sydd ganddynt. Trafodwch pam y gallai hyn fod, gan annog dysgwyr hefyd i ystyried pobl ifanc eraill y cawsant eu cyflwyno iddynt mewn sesiynau Saesneg 1 a 2.
- Dyma rai rhesymau posibl dros anghydraddoldebau gwledig a threfol, ac o ganlyniad mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn aml (ond nid bob amser) yn dlotach na'r rhai mewn ardaloedd trefol:
  - *Mae llawer o bobl mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu ar ffermio am fwyd ac incwm. Mae hyn yn golygu eu bod mewn sefyllfa fregus o ran tymheredd cynyddol a glawiad anrhagweladwy. Yn sgil y newid yn yr hinsawdd, mae digwyddiadau tywydd eithafol fel cyfnodau poeth iawn, sychder a llifogydd yn digwydd yn amlach ac yn mynd yn fwy difrifol.*
  - *Yn aml, mae'n well gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig fel meddygon, nyrsys ac athrawon weithio mewn dinasoedd, lle mae mwy o gyfleoedd fel arfer, cyflogau uwch a safon byw uwch.*
  - *Mae cymunedau gwledig yn aml yn ynysig ac efallai y bydd yn rhaid i bobl deithio'n bell i gyrraedd yr ysgol neu'r ganolfan iechyd agosaf.*
  - *Yn aml, mae lefelau seilwaith yn is mewn cymunedau gwledig, gyda llai o fynediad at wasanaethau hanfodol fel dŵr yfed diogel, glanweithdra a thrydan.*
  - *Gall llywodraethau hefyd flaenoriaethu'n annigonol wariant cyhoeddus a darparu gwasanaethau eilradd mewn ardaloedd gwledig, neu o fewn rhanbarthau grwpiau ethnig penodol. Felly, gall anghydraddoldeb rhwng ardaloedd dinesig ac ardaloedd gwledig hefyd waethygu yn sgil allgau gwleidyddol penodol.*

  Sylwer y gall anghydraddoldebau byd-eang hefyd effeithio ar y sefyllfa leol – gweler *Nodiadau Cefndir i athrawon* am ragor o wybodaeth.
- Dyma rai rhesymau posibl dros anghydraddoldebau rhwng y rhywiau, ac o ganlyniad mae gan ferched yn aml (ond nid bob amser) lai o hawliau a chyfleoedd na bechgyn:
  - *Gallai rhieni gredu mai'r meibion fydd prif enillwyr y dyfodol a'i bod felly'n bwysicach eu bod yn cael addysg dda.*
  - *Gall merched briodi'n gynharach a chael eu gorfodi i adael yr ysgol.*
  - *Gallai'r diwylliant o fewn cymuned olygu mai merched sy'n gwneud y gwaith tŷ tra bo bechgyn yn mynd allan i weithio.*
  - *Efallai na fydd rhieni am i ferched ddefnyddio cludiant cyhoeddus i fynd i'r ysgol ar eu pennau eu hunain am resymau diogelwch a/neu ddiwylliannol.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- *Gall diffyg cyfleusterau glanweithdra mewn ysgol atal merched yn fwy na bechgyn rhag mynd yno.*

- Mae prinder menywod mewn llywodraethau rhanbarthol a cenedlaethol yn gallu arwain at lai o ddylanwad wrth wneud penderfyniadau cyhoeddus.

  Sylwer bod anghydraddoldebau byd-eang hefyd a all effeithio ar y sefyllfa leol – gweler *Nodiadau Cefndir i athrawon am ragor o wybodaeth*.

Gweithgaredd 3.2 (50 mun)

Bywyd yn niwrnod …

Noder: Gellid trafod a chynllunio rhan o'r gweithgaredd hwn yn y dosbarth gyda'r elfen ysgrifennu yn cael ei chwblhau fel gwaith cartref.

- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i ysgrifennu am "Fywyd yn niwrnod …" un o'r wyth o bobl ifanc y cawsant eu cyflwyno iddynt yn sesiynau Cymraeg 1 a 2: Netsa a Hadush (Ethiopia), Sarada a Salman (India), Elmer ac Eva (Periw) a Phuoc a H'Mai (Fiet-nam).
- Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch gopi o *Bywyd yn niwrnod Afework* iddynt.
- Dadansoddwch gynulleidfa a phwrpas y testun a pha nodweddion ac iaith y mae'n eu defnyddio drwy ofyn i'r dysgwyr anodi'r testun i amlygu rhai o'r nodweddion hyn. Rhestrir nodweddion posibl isod ac ar sleid 7:
  - *Ysgrifennwyd yn bennaf yn yr amser presennol i ddisgrifio bywyd a dydd fel y maent yn awr ond weithiau wedi'u hysgrifennu yn yr amser gorffennol i esbonio pethau sydd eisoes wedi digwydd.*
  - *Ysgrifennwyd yn y person cyntaf.*
  - *Defnyddio cysyllteiriau amser.*
  - *Digwyddiadau mewn trefn gronolegol ond mae meddyliau, teimladau ac atgofion ynghlwm wrth bob digwyddiad, gan wneud hyn yn fwy na log amser.*
  - *Gwybodaeth bersonol (ffeithiau, meddyliau a disgrifiadau) megis rhai am deulu a ffrindiau, hoff a chas bethau, diddordebau a breuddwydion ar gyfer y dyfodol.*
  - *Gall digwyddiadau a ddisgrifir fod yn rhai sy'n digwydd bob dydd neu ar rai diwrnodau yn unig, fel "Ar ddydd Iau …" neu "Ar benwythnosau …".*
- Yna dylai'r dysgwyr ysgrifennu "Bywyd yn niwrnod …" un o'r wyth o bobl ifanc o sesiynau Cymraeg 1 a 2. Tynnwch sylw at y ffaith y dylent ddefnyddio proffil y person ifanc (Croeso i'm bywyd yn sesiwn Gymraeg 1) i'w helpu i ddychmygu sut beth fyddai diwrnod y person ifanc.
- Dywedwch wrth y dysgwyr, lle nad ydynt wedi cael gwybod, y gallant ddyfeisio'r amseriadau ar gyfer diwrnod y person ifanc ond y dylai'r gweithgareddau, y manylion a'r disgrifiad o deimladau'r person ifanc fod yn seiliedig ar broffil y person ifanc. Pwysleisiwch y gall pobl ifanc mewn cartrefi heb drydan fynd i'r gwely'n gynharach na'r rhai sydd â mynediad at drydan a thrafodwch pam y gallai hyn fod yn wir.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner i wirio eu hysgrifennu a gwerthuso pa mor dda y maent wedi defnyddio'r gwahanol nodweddion testun ar sleid 7. Trafodwch yr anawsterau sydd ynghlwm wrth ddewis pa wybodaeth i'w chynnwys a'i hepgor.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Caniatewch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr rannu eu hysgrifennu fel grŵp cyfan. Efallai yr hoffech gael trafodaeth bellach am unrhyw fylchau o fewn gwledydd a rhwng gwledydd ym mywydau'r bobl ifanc (*gweler gweithgareddau Cymraeg 1.3 a 2.2*).

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio Templed cynllunio Bywyd yn niwrnod … i helpu i strwythuro eu hysgrifennu.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu "Bywyd yn niwrnod …" ar gyfer dau neu fwy o'r wyth o bobl ifanc dan sylw.*

Syniadau Pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu "Bywyd yn niwrnod …" amdanyn nhw eu hunain. Yna gallent gymharu eu gwaith â'r rhai ar gyfer y bobl ifanc o bedair gwlad Bywyd Ifanc. Anogwch y dysgwyr i nodi unrhyw beth sy'n debyg ac unrhyw beth sy'n wahanol rhwng eu bywyd eu hunain a bywydau'r bobl ifanc hyn a thrafod rhesymau posibl dros unrhyw anghydraddoldebau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod yn un o'r bobl ifanc o ardal wledig sy'n disgrifio ei ymweliad cyntaf â dinas. Gallai'r cwestiynau canlynol fod o gymorth:
    - *Pa fath o ddinas ydyw yn eich barn chi?*
    - *Yn eich barn chi, beth fydd y prif bethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y ddinas a'r ardal wledig?*
    - *Yn eich barn chi, beth fydd y person ifanc yn gyffrous iawn amdano?*

  Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ymchwilio i ddinasoedd mawr yng ngwledydd Young Lives i'w helpu. Anogwch y dysgwyr i feddwl am yr anghydraddoldebau sy'n aml yn bodoli rhwng ardaloedd gwledig a dinesig ac i ddefnyddio'r rhain yn eu hysgrifennu. Gellid defnyddio'r dyfyniad canlynol gan Tufa yn Ethiopia fel sbardun:

  "Rydw i'n cofio fy ymweliad cyntaf â thref. Roedd yn gyffrous iawn gan nad oeddwn erioed wedi bod i dref o'r blaen. Dyma'r tro cyntaf imi weld ysgol mewn tref. Roedd yn hardd. Doeddwn i erioed wedi gweld car o'r blaen chwaith. Y peth cyntaf wnes i oedd mynd at farbwr a chael fy mhen wedi'i eillio."

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Young Lives
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Young Lives. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Bywyd yn niwrnod Afework

Bachgen 12 oed yw Afework (A-fee-work) sy'n byw yn Addis Ababa, prifddinas Ethiopia.

Cydnabyddiaeth y llun: © Young Lives/Aida Ashenafi

Rydw i'n codi am 6.30am. Rydw i'n mynd i'r toiled ac yn bwyta fy mrecwast. Yna, rydw i'n cerdded am tua 15 munud drwy fy rhan i o'r ddinas i'r ysgol. Mae'r ddinas yn lle swnllyd, gorlawn a prysur. Mae dosbarthiadau boreol yn dechrau am 7.30am, felly mae'n rhaid i mi wneud yn siŵr fy mod yno erbyn hynny.

Rydw i'n mynd i ysgol breifat ond does dim rhaid i mi dalu unrhyw ffioedd ysgol gan fy mod yn blentyn amddifad. Bu farw fy mam pan oeddwn yn saith oed a bu farw fy nhad pan oeddwn yn 10 oed. Rydw i'n byw gyda'm brawd hŷn Bekele a'm cefnder Addisu. Mae fy chwaer hŷn yn byw ac yn gweithio yn y Dwyrain Canol. Weithiau mae'n anfon arian yn ôl i Ethiopia i'n helpu. Rydw i'n gweld eisiau fy rhieni a'm chwaer. Mae bywyd yn anodd i blant amddifad ond gwn fod pobl eraill yma sy'n waeth eu byd na fi.

Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn lân ac mae ganddynt loriau pren. Mae'r desgiau'n gyfforddus ac yn ddigon mawr i dri myfyriwr eistedd o'u hamgylch. Mae'r athrawon yn ein helpu os nad ydym yn deall y gwaith. Am 12.30pm mae dosbarthiadau'r bore yn gorffen ac rydw i'n cerdded adref am ginio. Yna rydw i'n mynd yn ôl i'r ysgol yn y prynhawn. Mae llawer o glybiau ysgol fel clwb iechyd, clwb hawliau plant a chlybiau chwaraeon. Rydw i'n aelod o'r clwb hawliau plant.

Mae'r ysgol yn gorffen am 3.15pm ac rydw i'n cerdded adref. Rydw i'n newid allan o'm gwisg ysgol, yn bwyta byrbryd ac yn gwylio'r teledu am ychydig. Weithiau rydw i'n chwarae gyda'm "PlayStation®". Mae fy nghefnder Addisu fel arfer yn y gwaith yn ystod y dydd. Mae'n gweithio fel llafurwr dyddiol gyda sefydliad y llywodraeth, gan ddadlwytho tryciau pan fyddant yn dod â siwgr. Nid oes gan Addisu waith bob amser ac mae'n poeni sut y bydd yn gofalu amdanom os na all ennill unrhyw arian.

Rydym yn byw mewn gyda 12 tŷ wedi'u hadeiladu o amgylch cwrt. Mae'r tai yn perthyn i'r cyngor lleol ac wedi'u gwneud o fwd a phren. Mae'r teuluoedd i gyd yn rhannu tair cegin a chwe thoiled. Mae gan ein tŷ waliau gwyn a dim ond un ystafell fawr ydyw. Mae'r ystafell yn dywyll ond mae gennym drydan ar gyfer goleuadau a theledu a fideo. Mae'r ystafell wedi'i rhannu'n ddwy gan lenni. Ar un ochr i'r llen mae gwely pren mawr. Ar yr ochr arall mae cypyrddau ac offer cegin. Mae dau flwch hefyd ar gyfer storio ein dillad a'n dillad gwely.

Ar ôl gwylio'r teledu, rydw i'n chwarae gyda fy ffrindiau am ychydig oriau. Rydyn ni'n chwarae pêl-droed yn y stryd. Yn y dyfodol hoffwn fod yn chwaraewr pêl-droed oherwydd fy mod wrth fy modd gyda phêl-droed! Os nad ydw i'n dod yn chwaraewr pêl-droed, hoffwn fod yn feddyg.

Am 6.30pm rydw i'n astudio gartref am awr. Rydw i eisiau dysgu a gwybod pethau newydd. Ar ôl astudio, rydw i'n helpu gyda'r gwaith tŷ. Rydw i'n mwynhau gwneud y gwelyau ond dydw i ddim yn hoffi golchi'r llestri gymaint. Yna rydym yn cael cinio. Yn aml, rydym yn bwyta *shiro* sy'n stiw wedi'i wneud o ffacbys sych. Fel arfer rydym yn bwyta hwn gydag *injera*, sy'n fath o fara fflat. Rydw i fel arfer yn y gwely erbyn 8.30pm.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Bywyd yn niwrnod Tufa

Bachgen 13 oed yw Tufa (Too-fa) sy'n byw mewn ardal wledig yn rhanbarth Oromia yn Ethiopia.

Cydnabyddiaeth y llun:
© Young Lives/Antonio Fiorente

Fel arfer, byddaf yn codi am 7.30am ond rai dyddiau rydw i'n codi'n gynharach. Yn gyntaf oll rydw i'n mynd i gasglu coed tân ar gyfer fy nheulu. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn Ethiopia yn dibynnu ar goed tân, siarcol neu ddom anifeiliaid ar gyfer tanwydd. Rydym yn defnyddio'r pren ar gyfer coginio a berwi dŵr. Fel arfer, byddaf yn mynd i gasglu coed tân gyda thri ffrind; rhaid inni fynd i goedwig ymhell i ffwrdd o'n pentref.

Ar ôl dychwelyd adref, rydw i'n cael brecwast gyda fy nheulu. Yna rydw i'n mynd i bysgota gyda dau ffrind. Rydw i'n treulio llawer o amser yn pysgota ond dydw i ddim wir yn ei fwynhau. Mae angen i mi ei wneud i helpu i fwydo fy nheulu oherwydd pe na bawn i'n ei wneud ni fyddai digon o fwyd gartref. Dyna un gwahaniaeth rhwng bechgyn tlawd a rhai cyfoethog. Rhaid i blant tlawd bysgota, tra bo bechgyn cyfoethog yn prynu eu pysgod gan deuluoedd tlawd yn hytrach na physgota eu hunain.

Rydw i'n dychwelyd adref am hanner dydd ac yn treulio awr yn ymlacio gartref gyda fy nheulu. Mae saith o bobl eraill yn fy nheulu: fy nhad a'm mam, fy nau frawd a'm tair chwaer. Roedd gen i chwaer arall ond bu hi farw o falaria. Yr wyf hefyd wedi cael malaria yn y gorffennol ond yr wyf wedi goroesi. Yr ydym i gyd yn byw gyda'n gilydd mewn un ystafell fach wedi'i hadeiladu o haearn rhychiog. Fe'i rhennir yn ddwy ac rydym yn ei ddefnyddio fel ystafell fyw, ystafell wely a chegin ac rydym hefyd yn cadw da byw yma. Nid oes gennym doiled.

Yn y prynhawn rydw i'n mynd i weithio ar ein fferm. Mae'n rhaid i mi ofalu am y tir i sicrhau nad yw'r cnydau yn cael eu bwyta gan anifeiliaid. Mae hi'n dymor y cynhaeaf ar hyn o bryd. Rydw i'n hoffi gweithio ar y fferm gan ei fod yn dod â bwyd i'm teulu – byddai bywyd yn amhosibl hebddo.

Fe wnes i'n dda yn yr ysgol ond bu'n rhaid i mi roi'r gorau iddi ddwy flynedd yn ôl i ofalu am y gwartheg. Roeddwn i'n drist oherwydd bod y plant eraill yn cael dysgu ond doeddwn i ddim yn cael gwneud hynny. Nid oedd unrhyw blant eraill a allai ofalu am wartheg heblaw amdanaf fi gartref. Mae un o'm chwiorydd iau hefyd yn colli'r ysgol wrth iddi helpu gartref. Mae gweddill fy mrodyr a'm chwiorydd yn mynd i'r ysgol. Dydw i ddim yn hapus pan nad ydw i'n dysgu. Rydw i am ddysgu a dod yn athro ar ôl i mi orffen fy addysg.

Rydw i'n treulio tair awr ar ein tir ac yna rydw i'n mynd i nôl dŵr. Yr ydym yn mynd i bibell ddŵr yn ein pentref yr ydym yn ei rhannu â theuluoedd eraill. Ar ôl nôl dŵr, rydw i'n chwarae gyda fy ffrindiau yn y pentref tan 6:00pm. Yn aml mae gennym gêm o bêl-droed yn y cae ac weithiau rydym yn chwarae marblis.

Weithiau gyda'r nos rydym yn mynd draw i dŷ ein cymdogion i wylio'r teledu. Prynon nhw deledu newydd ddoe. Rydym yn aros yno tan yn hwyr ac nid ydym yn bwyta swper tan 10:00pm! Fel arfer rydyn ni'n bwyta swper ac rydw i'n mynd i'r gwely lawer yn gynharach.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Bywyd yn niwrnod Harika

Merch 12 oed yw Harika (Har-i-ka) sy'n byw mewn pentref yn nhalaith Telangana yn India.

© *Young Lives/Farhatullah Beig*

Byddaf fel arfer yn codi am 6.00am ond weithiau byddaf yn codi'n gynharach. Pan fydda i'n gweithio yn y caeau, rydw i'n codi am 4.00am er mwyn i mi allu astudio cyn mynd i'r gwaith.

Yn gyntaf, rydw i'n brwsio fy nannedd ac yn cael paned o de. Yna rydw i'n mynd i'r baddon. Nesaf, rydw i'n nôl rhywfaint o ddŵr. Rhaid inni gasglu'r dŵr mewn potiau o dap stryd yng nghefn ein tŷ. Rydw i hefyd yn glanhau'r llestri ac yn ysgubo'r llawr. Mae'n rhaid i mi weithio'n galed i helpu fy mam gartref. Mae gen i frawd iau ond does dim rhaid iddo wneud unrhyw waith tŷ gan ei fod yn fachgen.

Ar ôl brecwast rydw i'n mynd i'r ysgol, sy'n dechrau am 9.30am. Rydw i'n hoffi fy ysgol a'm hathrawon. Credaf fod addysg yn bwysig. Os nad ydym yn cael ein haddysgu, nid ydym yn gwybod dim. Felly, os awn i'r ysgol, gallwn ddysgu popeth am bethau. Yn y dyfodol hoffwn fod yn athrawes fel y gallaf addysgu plant a dweud pethau da wrthynt.

Fel llawer o'r plant yn fy mhentref i, mae'n rhaid i mi weithio yn y caeau yn ystod y cynhaeaf a cholli'r ysgol. Rydw i'n poeni am golli ysgol ac mae cynaeafu'n galed, yn boeth ac weithiau'n beryglus. Mae rhai plant yn mynd yn sâl o'r plaladdwyr y mae'r oedolion yn eu chwistrellu ar y cnydau. Mae perygl hefyd o nadroedd. Cefais fy mrathu ar fy nhroed unwaith. Mae fy ffrind Salma yn lwcus gan nad oes rhaid iddi weithio yn y caeau nac yn y cartref. Mae ei theulu'n berchen ar westy.

Pan nad yw'n amser cynaeafu, gallaf fynd i'n hysgol. Rydw i'n aros yn yr ysgol am ginio ac mae dosbarthiadau'n gorffen am 4.00pm. Rydw i'n aros allan am ychydig ac yn chwarae *kho kho* gyda fy ffrindiau. Mae *Kho kho* yn gêm boblogaidd yma; mae'n debyg i dag. Yn gyntaf, byddwch yn rhannu'n ddau dîm cyfartal. Mae'r chwaraewyr yn y tîm sy'n chwilio am aelodau'r tîm arall yn eistedd neu'n penlinio mewn llinell i lawr canol y cwrt. Mae'r tîm arall yn anfon tri chwaraewr (a elwir yn osgowyr) i'r cwrt. Mae un person o'r tîm sy'n chwilio yn codi ar ei draed ac yn chwarae rhan yr heliwr. Mae'n rhaid iddyn nhw redeg o amgylch y llinell i geisio tagio'r tri o osgowyr. Gall y sawl sy'n chwilio gyfnewid â pherson arall yn ei dîm drwy fynd i fyny atynt o'r tu ôl, eu taro ar yr ysgwydd a gweiddi 'kho'. Pan gaiff un o'r osgowyr ei dagio, mae rhywun arall yn ei dîm yn cymryd ei le. Y nod yw tagio'r holl bobl yn y tîm arall cyn gynted â phosibl. Pan fydd pawb wedi cael eu dal, mae'r ddau dîm yn newid lle.

Ar ôl chwarae, rydw i'n mynd adref ac yn cael te. Yna rydw i'n gwneud mwy o waith tŷ: Rydw i'n ysgubo'r llawr, yn nôl mwy o ddŵr ac yn coginio'r bwyd i ginio. Rydw i hefyd yn gofalu am fy mrawd iau. Rydw i wedi gorfod gwneud mwy a mwy o waith dros y misoedd diwethaf oherwydd bod fy nhad wedi anafu ei goes mewn damwain ffordd ac ni all weithio. Felly nawr mae'n rhaid i fy mam dreulio rhan helaeth o'i hamser yn gweithio yng nghaeau'r teulu ac mae'n rhaid i mi wneud mwy o waith gartref. Os oes gennyf amser rhydd, byddaf yn aml yn mynd i weld fy mam-gu. Rydym yn agos iawn, rydw i'n ei hoffi'n fawr.

Gyda'r nos, rydw i'n mynd i dŷ cymydog i wylio'r teledu. Mae fy mam yn cyrraedd adref o'r gwaith ac rydym i gyd yn bwyta swper gyda'n gilydd. Am 10.00pm rydw i'n mynd i'r gwely – yn flinedig!

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Bywyd yn niwrnod Ravi

Bachgen 12 oed yw Ravi (Rav-y) sy'n byw mewn pentref yn nhalaith Andhra Pradesh yn India.

Cydnabyddiaeth y llun:
© Young Lives/ Farhatullah Beig

Byddaf fel arfer yn codi am 5.00am. Yn gyntaf, rydw i'n mynd i lanhau'r sied wartheg ac yna rydw i'n ysgubo'r llawr ac yn nôl rhywfaint o ddŵr. Mae'n rhaid i mi gerdded am 30 munud i nôl y dŵr y rhan fwyaf o ddyddiau.

Nesaf, rydw i'n golchi fy wyneb ac yn yfed te. Yna, rydw i'n helpu fy nai i baratoi ar gyfer yr ysgol. Rydw i'n hoffi gofalu amdano. Mae'n fab i'm chwaer hŷn ond mae'n byw gyda ni. Rwyf hefyd yn byw gyda fy rhieni a'm brodyr. Yn y dyfodol, hoffwn briodi a chael plentyn fy hun, bachgen neu ferch. Mae fy nheulu a fi'n dod o'r grŵp *Cast Rhestredig* a elwir hefyd yn *Dalitis*.

Rydw i'n gadael i fynd i'r gwaith am 9.00am. Rydw i'n gweithio'n llawn amser fel gweithiwr fferm. Mae'n rhaid i mi ddewis cnau daear, clirio cerrig o'r caeau a thorri'r glaswellt. Bu'n rhaid i mi roi'r gorau i'r ysgol dair blynedd yn ôl i ennill arian i helpu fy nheulu i dalu dyled o 20,000 rwpî (tua £200).

Astudiais hyd ddiwedd blwyddyn pump yn yr ysgol. Rydw i'n cofio mynd i'r ysgol pan o'n i'n 10 oed. Roeddwn i'n arfer chwarae gyda'r plant eraill a thynnu lluniau ar y wal. Arferai pobl eraill ddweud y gallwn dynnu llun yn dda iawn. Unwaith enillais wobr am fy llun. Roedd yn flwch mawr gyda pheniau a phethau eraill ynddo. Rydw i'n dal i'w gadw'n ddiogel. Nid aeth yr un o'm rhieni i'r ysgol ond mae fy mrawd yn mynd. Mae'n astudio'n dda. Roeddwn i'n hapus pan wnes i roi'r gorau i fynd i'r ysgol am y tro cyntaf ond nawr rydw i'n drist oherwydd bob dydd mae'n rhaid i mi wneud mwy a mwy o waith caled ar y fferm. Pan fydd dyled ein teulu'n cael ei thalu, rydw i'n gobeithio gallu mynd i'r ysgol eto. Rydw i'n credu y dylai plant fy oedran fynd i'r ysgol.

Rydw i'n gorffen gweithio am 3.00pm ac yn mynd yn ôl adref am ginio, sydd fel arfer yn reis a *dal*, stiw sbeislyd wedi'i wneud o ffacbys. Yna rydw i'n chwarae marblis gyda fy ffrindiau yn y pentref am gyfnod. Rydw i'n mwynhau chwarae gyda fy ffrindiau; Rydw i hefyd yn hoffi reidio fy meic. Yn nes ymlaen rydw i'n mynd i gasglu rhywfaint o bren tân ac yna mae fy mam yn fy anfon i'r siop i brynu rhywfaint o fwyd i ginio.

Am 6.30pm rydw i'n gwylio'r teledu ac yna am 7.30pm rydw i'n bwyta swper gyda fy nheulu cyn i mi fynd i'r gwely am 8.00pm.

System astau India
Mae system castau India yn dyddio'n ôl filoedd o flynyddoedd ac mae'n dal yn eithriadol o bwysig mewn bywyd bob dydd heddiw. *Castau Rhestredig* (a elwir fel arall yn *Dalei*) a *Llwythau Rhestredig* (a elwir hefyd yn *Adivasis*, pobl frodorol India) yw'r cymunedau mwyaf difreintiedig, sy'n aml yn byw mewn ardaloedd tlawd a chyda'r mynediad gwaethaf at wasanaethau iechyd ac addysg.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Bywyd yn niwrnod … **Grid dadansoddi**

Enw'r person ifanc: _____

Llenwch y tabl isod gyda gwybodaeth am ddiwrnod y person ifanc. *Noder: Efallai na fyddwch yn gallu llenwi'r holl flychau ar gyfer pob person ifanc.*

Amser	Gweithgaredd

Beth yr ydych wedi'i ddysgu am y person ifanc yma?

Aelodau o'r teulu	Ffrindiau
Hoff Bethau a Chas Bethau	Diddordebau hamdden
Yr heriau maent yn eu hwynebu	Personoliaeth
Atgofion	Breuddwydion ac uchelgeisiau

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Bywyd yn niwrnod …

Templed cynllunio

Enw'r person ifanc:	
Ble yr ydych yn byw?	
Beth a ddigwyddodd yn ystod eich diwrnod? Yn gyntaf … Yna … Nesaf … Ar ôl hynny … Yn olaf …	
Aelodau o'r teulu	Ffrindiau
Hoff Bethau a Chas Bethau	Diddordebau hamdden
Yr heriau rydych yn eu hwynebu	Personoliaeth
Atgofion	Breuddwydion ac uchelgeisiau

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM